## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2018-2019

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar 8 Mai 2019. Fe'i darperir er gwybodaeth yr holl etholwyr ac nid oes iddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Linda Tyler-Lloyd | **Ward Etholiadol:** | Mayals |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | N/A |

### Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhelir cymorthfeydd unwaith y mis o hyd yn Neuadd Vivian am 6pm ar nos Wener cyntaf y mis, ac eithrio ym mis Rhagfyr a mis Ionawr. Does dim angen apwyntiad. Rwy'n aelod o Bwyllgor Preswylwyr Mayals a Blackpill ac rwyf wedi cefnogi'r gweithgareddau a gynhelir gan y grŵp megis dathliadau'r Nadolig yn Neuadd Vivian. Un mater a godwyd yng nghyfarfodydd y pwyllgor oedd y broblem y mae rhai preswylwyr wedi'i phrofi â gwylanod. Roeddwn yn rhan o banel craffu a fu'n ystyried y broblem hon. Hysbysodd y pwyllgor y Cabinet am ein canfyddiadau ac rydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa. Lluniwyd posteri sy'n rhoi cyngor i bobl ar sut i liniaru'r broblem.

### Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr is-adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb cynghorwyr yma.

### Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Gallwch weld cyfrifoldebau'r cynghorwyr yma.
Gallwch weld apwyntiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

Roeddwn (ac rwy'n parhau i fod) yn aelod o Gyngor Cymuned y Mwmbwls. Rwyf hefyd yn aelod o Grŵp Cyfeillion Gerddi Clun, a sefydlwyd gennyf, ac sy'n dechrau cael ei gefn ato.

### Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig

Mae Fforwm Coed Abertawe wedi annog gwaith plannu coed stryd a dewisais ddwy goeden i'w plannu yn ardal Mayals ym mis Ionawr 2020, felly cadwch lygad am y rheini. Bydd un yn cael ei phlannu yn Blackpill ger y bont Rufeinig a'r llall ar waelod Lôn Owls Lodge.

Rwyf hefyd yn aelod o bwyllgor Comin Gŵyr. Un pryder mawr oedd cyflymder y traffig a'r perygl i anifeiliaid o ganlyniad. Mae trafodaethau'n parhau.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Mae cyflwr maes parcio The Woodman yn Blackpill yn wael iawn o hyd, ac mae tyllau ar ochr y ffordd sydd am ddim i'r cyhoedd. Hoffwn dalu am y gwaith adfer ag arian o fy Nghyllideb Cynghorwyr Cymunedol, ond ni allaf wneud hyn oherwydd bod anghydfod dros berchnogaeth o hyd. Fodd bynnag, rwy'n ceisio datrys y broblem hon. Problem tymor hir arall yw trafod â'r adran draffig er mwyn ceisio gosod croesfan ar waelod Heol Mayals. Rydym yn aros am arian grant oddi wrth Lywodraeth Cymru, ac rwy'n gobeithio y caiff croesfan ei gosod yn 2019-20.

**Rhan 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**
Cyflog sylfaenol: £13,600

Gallwch weld ffurflenni hawlio costau teithio a threuliau cynghorwyr yma.
Gallwch weld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 17/01/2020 |